

PRIFFYRDD, CYMRU

2012 Rhif 4

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HILL HEAD, LLANILLTUD FAWR, BRO MORGANNWG) 2012

Gwnaed

16 Ionawr 2012

Yn dod i rym

26 Ionawr 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1990”) a phob pŵer galluogi arall (2):

1. Yn y Gorchymyn hwn: -

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “y plan a adnewyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan o'r enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Hill Head, Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg) 2012” sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog sebra ar y map a adnewyd, gan eu bod wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r ffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 08 Gorffennaf 2011 o dan y cyfeirnod 2011/00475/FUL.

3. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:

(a) hyd oni fydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r rhan o briffordd i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a) a (b) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

4. Os bydd, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

5. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd effaith y Gorchymyn hwn yn peidio pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

6. Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Hill Head, Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig

16 Ionawr 2012

G MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

(1) 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp sy'n gyfagos i
1 Hill Head, Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg, y mae
ei hyd uchaf yn 6 metr a'i lled uchaf yn 2 fetr, y mae
cyfanswm ei harwynebedd yn 7 metr sgwâr, ac sy'n
rhan o'r droetffordd a'r llain ymyl a ddangosir â
llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad Arfaethedig

Wal gynnal, llwybr a grisffordd allanol yn 1 Hill Head,
Llanilltud Fawr.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HILL HEAD, LLANILLTUD FAWR, BRO MORGANNWG) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru
wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf
Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn awdurdodi cau'r
rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad
hwn.

Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir cau'r
briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a
ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r hysbysiad hwn i gael ei
wneud. Bydd effaith y Gorchymyn yn peidio os daw'r
caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod y 6 wythnos ar ôl 26 Ionawr 2012, gellir
archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd
yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Tref

Llanilltud Fawr, Neuadd y Dref, Llanilltud Fawr CF61 1SD yn ystod yr oriau agor arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu
- b. y rhagfarnwyd yn sylweddol yn erbyn ei fuddiannau gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 26 Ionawr 2012, wneud cais i'r Uchel Lys am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn <http://wales.gov.uk/?skip=1&lang=cy> (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau', '2012').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp sy'n gyfagos i 1 Hill Head, Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg, y mae ei hyd uchaf yn 6 metr a'i lled uchaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 7 metr sgwâr, ac sy'n

rhan o'r droetffordd a'r llain ymyl a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad Arfaethedig

Y wal gynnal, y llwybr a'r risffordd allanol arfaethedig yn 1 Hill Head, Llanilltud Fawr, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 8 Gorffennaf 2011 o dan gyfeirnod 2011/00475/FUL.

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (HILL HEAD, LLANTWIT MAJOR, VALE OF GLAMORGAN) ORDER 2011

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 to authorise the stopping up of the area of highway described in Schedule 1 to this Notice.

The stopping up will be authorised only in order to enable the development described in Schedule 2 to this notice to be carried out. The Order will cease to have effect if the planning permission expires or is revoked.

During the 6 weeks from ?????, copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at the offices of Llantwit Major Town Council, Town Hall, Llantwit Major CF61 1SF during normal opening hours or may be obtained free of charge from the address below.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any of the Provisions contained therein, on the grounds:

- c. that it is not within the powers of the Town and Country Planning Act 1990; or
- d. that their interests have been substantially prejudiced by a failure to comply with any of the requirements of the Act,

that person may, within 6 weeks of ***** 2011 apply to the High Court for the suspension of quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed at <http://wales.gov.uk/?lang=en> (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Non-Statutory Instruments', 'Transport, Wales', 'TCPA Stopping Up Orders', '2011').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1

(All measurements are approximate)

Description of the area of highway to be stopped up under this Order

An irregularly shaped area of highway adjacent to 1 Hill Head, Llantwit Major, Vale of Glamorgan, measuring a maximum of 6 metres in length by a maximum of 2 metres in width, with a total area of 7 square metres, forming part of the footway and verge shown in zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2

Proposed Development

Proposed retaining wall, pathway and external stairway at 1 Hill Head, Llantwit Major, in accordance with planning permission granted by the Vale of Glamorgan County Borough Council under Part III of the Act of 1990, on 8 July 2011 under reference 2011/00475/FUL.